# MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL

## (MEMORANDWM RHIF 3)

## BIL BANC SEILWAITH Y DU

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y caniateir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru (“y Senedd”) os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu sy’n addasu’r cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd Bil Banc Seilwaith y DU (“y Bil”) yn Nhŷ’r Arglwyddi ar 11 Mai 2022. Cyhoeddwyd creu banc seilwaith y DU (“y Banc”) gyntaf gan y Canghellor yn Adolygiad o Wariant 2020. Lansiwyd y Banc ar sail anstatudol ar 17 Mehefin 2021, ac mae eisoes wedi dechrau gwneud buddsoddiadau.

3. Gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 25 Mai 2022, gan roi sylw i ddarpariaethau yn y Bil fel y’i cyflwynwyd.

4. Gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol gerbron y Senedd ar 8 Gorffennaf a roddodd sylw i welliannau a basiwyd yn ystod ei daith drwy Dŷ’r Arglwyddi.

5. Cafodd gwelliannau i’r darpariaethau yn y Bil eu cyflwyno i’w hystyried yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ’r Cyffredin ar 22 Tachwedd 2022, pan gytunwyd ar welliannau Llywodraeth y DU. Mae’r gwelliannau hyn yn gwneud darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd y mae’r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn yn rhoi sylw iddynt.

6. Daeth Cyfnod Pwyllgor Tŷ’r Cyffredin i ben ar 22 Tachwedd 2022.

7. Mae’r fersiwn gyfredol o’r Bil ochr yn ochr â manylion yr holl welliannau i’w gweld ar wefan Senedd y DU: Bil Banc Seilwaith y DU [HL] - Biliau Seneddol - Senedd y DU

8. Mae Llywodraeth Cymru, drwy drafodaethau â Llywodraeth y DU, wedi gofyn am welliannau sy’n ymwneud â chylch gwaith y Banc mewn meysydd sydd wedi eu datganoli i sicrhau bod datganoli’n cael ei barchu. Mae’r rhan fwyaf o’r gwelliannau y cytunwyd arnynt yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ’r Cyffredin yn ymwneud â’r trafodaethau hyn.

### Amcanion Polisi

9. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yn y Bil yw sefydlu’r Banc i helpu i fynd i’r afael â newid yn yr hinsawdd a chefnogi twf economaidd rhanbarthol a lleol drwy ddarparu mynediad at offerynnau ariannol, gan gynnwys benthyciadau i awdurdodau lleol i alluogi buddsoddi mewn seilwaith. Bydd yn gweithredu ledled y DU.

**Crynodeb o'r Bil**

10. Noddir y Bil gan Drysorlys Ei Fawrhydi.

11. Diben datganedig Llywodraeth y DU yn y Bil hwn yw gosod y Banc ar sail statudol. Mae'r Banc yn sefydliad annibynnol yn weithredol sydd ym mherchnogaeth lwyr y Llywodraeth.

12. Drwy osod y Banc ar sail statudol, mae'r Bil yn ceisio:

a) cadarnhau a rhoi grym statudol i amcanion a gweithgareddau'r Banc;
b) sicrhau bod y Banc yn sefydliad hirhoedlog;
c) creu ffurfiau statudol o dryloywder, atebolrwydd a llywodraethiant ar gyfer y Banc;
d) dileu rhwystrau cyfreithiol sy'n atal y Banc rhag benthyca'n uniongyrchol i'r awdurdodau lleol; ac
e) rhoi pwerau penodol i'r Trysorlys i roi cymorth ariannol i'r Banc.

**Rhychwant tiriogaethol a chymhwyso**

13. Mae'r Bil yn ymestyn ac yn gymwys i'r Deyrnas Unedig gyfan.

14. Mae buddsoddi mewn seilwaith yn gymysgedd o gymhwysedd a gedwir yn ôl a chymhwysedd wedi ei ddatganoli. Mae materion sy'n ymwneud ag ynni, rheilffyrdd trawsffiniol a chyfathrebu digidol yn achosion pan fo buddsoddi mewn seilwaith yn debygol o ddod o fewn cymhwysedd a gedwir yn ôl. Mae materion eraill megis rheilffyrdd, porthladdoedd neu bontydd o fewn un wlad neu ardal ddatganoledig yn debygol o ddod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**Gwelliannau y cytunwyd arnynt yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

15. Fel y nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf, mae angen cydsyniad y Senedd ar y Bil cyfan gan fod gan y Senedd gymhwysedd i ddeddfu yn yr un termau neu dermau tebyg o ran Cymru.

16. Mae manylion yr holl welliannau a ystyriwyd yn y Cyfnod Pwyllgor gan gynnwys eu cyfeirnodau, drafftio penodol ac a gytunwyd arnynt ai peidio ar wefan Llywodraeth y DU isod.

https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/58-03/0140/amend/ukinfra_pro_pbc_1122.pdf

17. Noder nad yw'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn yn ystyried y rhai na chytunwyd arnynt.

18. Nodir isod y gwelliannau y cytunwyd arnynt.

**Cymal 2**

**Y cymal gwreiddiol:**

19. *Cymal 2 – Amcanion a gweithgareddau*

20. *Mae hyn yn pennu beth fydd amcanion a gweithgareddau'r Banc. Amcanion y Banc yw helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a chefnogi twf economaidd. Gweithgareddau'r Banc yw darparu cymorth ariannol i brosiectau sy'n ymwneud â seilwaith (i gynnwys dŵr, trydan, nwy, telathrebu, carthffosiaeth, rheilffyrdd (gan gynnwys cerbydau rheilffyrdd), ffyrdd neu fathau eraill o drafnidiaeth a newid yn yr hinsawdd), darparu benthyciadau i awdurdodau cyhoeddus ar gyfer prosiectau o'r fath a darparu gwasanaethau cynghori a chymorth eraill ar gyfer prosiectau o'r fath. Caniateir i'r gweithgareddau uchod, a'r diffiniad o'r hyn sy'n cwmpasu 'seilwaith' at ddibenion gweithgareddau o'r fath, gael eu newid gan y Trysorlys drwy reoliadau a wneir gan offeryn statudol.*

21. Mae angen cydsyniad – caiff y Senedd ddeddfu i roi'r swyddogaethau hyn (sydd, fel uchod, eu hunain yn ymwneud â meysydd datganoledig o'r gyfraith) i gorff y mae'n ei greu.

**Gwelliannau y cytunwyd arnynt i gymal 2:**

Gwelliant y Llywodraeth 8

22. Byddai'r gwelliant hwn, a Gwelliant 9, yn egluro y caiff y Banc ddarparu benthyciadau i awdurdodau cyhoeddus heblaw awdurdodau lleol ac adrannau Gogledd Iwerddon (yn ogystal ag i bersonau heblaw awdurdodau cyhoeddus).

Gwelliant y Llywodraeth 1

23. Byddai'r gwelliant hwn yn dileu'r cyfeiriad at "strwythurau sy'n sail i'r economi gylchol, ac atebion ar sail natur," o'r diffiniad o "seilwaith".

Gwelliant y Llywodraeth 2

24. Byddai'r gwelliant hwn yn dileu is-adran (6), a fewnosodwyd gan Dŷ'r Arglwyddi.

Gwelliant y Llywodraeth 3

25. Byddai'r gwelliant hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Trysorlys ymgynghori â'r awdurdod datganoledig perthnasol cyn gwneud rheoliadau o dan gymal 2(7) a fyddai'n cynnwys darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol yr awdurdod o dan sylw.

Cydsyniad sy'n ofynnol ar gyfer gwelliannau y cytunwyd arnynt i gymal 2

26. Mae angen cydsyniad - nid yw'r gwelliannau arfaethedig yn effeithio ar y cyngor cymhwysedd a nodir uchod ar gyfer y cymal gwreiddiol, a chan fod y cymal gwreiddiol yn 'ddarpariaeth berthnasol' ac o fewn cwmpas RhS 29, mae angen cydsyniad ar gyfer y gwelliannau hyn.

**<u>Cymal 3</u>**

**Y cymal gwreiddiol:**

27. *Cymal 3 – Blaenoriaethau a chynlluniau strategol*

28. *Mae cymal 3 yn nodi bod rhaid i'r Trysorlys baratoi datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer y Banc ac yn caniatáu y caiff y Trysorlys ddiwygio neu ddisodli datganiad o'r fath. Ymhellach, mae'n nodi bod rhaid i'r Banc sicrhau bod ei erthyglau cymdeithasu yn darparu i'r Banc gyhoeddi a gweithredu yn unol â chynlluniau strategol sy'n adlewyrchu datganiad y Trysorlys, ac i ddiweddaru'r cynlluniau hynny pryd bynnag y bydd y Trysorlys yn diwygio neu'n disodli ei ddatganiad.*

29. Mae angen cydsyniad – mae'r cymal hwn yn ymdrin â llywodraethiant corfforaethol corff corfforedig sy'n bodoli eisoes. Rydym wedi adolygu'r ddarpariaeth uchod yn erbyn y materion a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru a'r cyfyngiadau yn Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru ac wedi dod i'r casgliad (gan fod amcanion a gweithgareddau'r corff corfforedig a enwyd o fewn cymhwysedd – gweler y dadansoddiad o gymal 2 uchod) nad oes unrhyw beth wedi ei gynnwys yno a fyddai'n golygu bod darpariaeth o'r fath y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd pe bai'n cael ei chynnwys mewn Deddf gan y Senedd.

**Gwelliannau y cytunwyd arnynt i gymal 3:**

Gwelliant y Llywodraeth 4

30. Byddai'r gwelliant hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Trysorlys ymgynghori â'r awdurdod datganoledig perthnasol cyn cynnwys mewn datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer y Banc unrhyw ddarpariaeth y mae'r Trysorlys yn bwriadu ei chynnwys yn y datganiad ac sy'n ymwneud â phwnc o fewn cymhwysedd deddfwriaethol yr awdurdod o dan sylw.

31. Mae angen cydsyniad - nid yw'r gwelliant arfaethedig yn effeithio ar y cyngor cymhwysedd a nodir uchod ar gyfer y cymal gwreiddiol, a chan fod y cymal gwreiddiol yn 'ddarpariaeth berthnasol' ac o fewn cwmpas RhS 29, mae angen cydsyniad ar gyfer y gwelliannau hyn.

**<u>Cymalau 6 a 7</u>**

**Y cymal gwreiddiol:**

32. *Cymalau 6 (Cyfrifon ac adroddiadau blynyddol) a 7 (Cyfarwyddwyr: penodi a deiliadaeth)*

33. *Mae cymal 6 yn nodi bod rhaid i gyfarwyddwyr y Banc, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cydymffurfio ag adran 441 o Ddeddf Cwmnïau 2006 mewn perthynas â blwyddyn ariannol, ddarparu i'r Trysorlys gopi o'r cyfrifon a'r adroddiadau y mae'n ofynnol iddynt eu darparu. Ymhellach, mae'r cymal yn gorfodi'r Trysorlys i osod copi o'r cyfrifon a'r adroddiadau hynny gerbron Senedd y DU.*

34. *Mae cymal 7 yn ymdrin â materion llywodraethiant corfforaethol sy'n ymwneud â phenodi a deiliadaeth cyfarwyddwyr ar gyfer y Banc.*

35. Mae angen cydsyniad – mae'r cymalau hyn yn ymdrin â llywodraethiant corfforaethol corff corfforedig sy'n bodoli eisoes ac, o ganlyniad, rydym wedi dod i'r casgliad (gan fod amcanion a gweithgareddau'r corff corfforedig a enwyd o fewn cymhwysedd – gweler y dadansoddiad o gymal 2 uchod) y byddent o fewn

cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd pe baent yn cael eu cynnwys mewn Deddf gan y Senedd yn ymwneud â chwmni a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru.

**Gwelliannau y cytunwyd arnynt i gymalau 6 a 7:**

Gwelliant y Llywodraeth 5

36. Byddai'r gwelliant hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd y Banc gynnwys un neu ragor o gyfarwyddwyr sydd â chyfrifoldeb am sicrhau bod y Bwrdd yn ystyried buddiannau'r awdurdodau cenedlaethol priodol wrth wneud penderfyniadau.

37. Mae angen cydsyniad - nid yw'r gwelliant arfaethedig yn effeithio ar y cyngor cymhwysedd a nodir uchod ar gyfer y cymal gwreiddiol, a chan fod y cymal gwreiddiol yn 'ddarpariaeth berthnasol' ac o fewn cwmpas RhS 29, mae angen cydsyniad ar gyfer y gwelliannau hyn.

**<u>Cymalau 10 ac 11</u>**

**Y cymal gwreiddiol:**

38. *Cymal 10 (Dehongli) ac 11 (Rhychwant ac enw byr)*

39. *Mae cymalau 10 ac 11 yn diffinio'r termau diffiniedig a ddefnyddir yn y Bil, ac yn nodi rhychwant y 'Ddeddf', y dyddiad y daw i rym a'i henw byr.*

40. Mae angen cydsyniad - gan eu bod yn ategol i weddill y Bil, deuir i'r casgliad bod angen cydsyniad.

**Gwelliannau y cytunwyd arnynt i gymalau 10 ac 11:**

Gwelliant y Llywodraeth 6

41. Byddai'r gwelliant hwn yn diffinio "awdurdod cenedlaethol priodol".

Gwelliant y Llywodraeth 9

42. Mae'r gwelliant hwn yn ganlyniadol i'r newid a wneir i gymal 2 fel y'i disgrifir ym mharagraff 22 uchod (mae'n darparu'r diffiniad o'r term 'awdurdodau cyhoeddus' fel sy'n cael ei ddefnyddio yn y gwelliant hwnnw).

Gwelliant y Llywodraeth 7

43. Byddai'r gwelliant hwn yn dileu'r gwelliant braint a fewnosodwyd gan Dŷ'r Arglwyddi.

Cydsyniad sy'n ofynnol ar gyfer gwelliannau y cytunwyd arnynt i gymalau 10 ac 11

44. Mae angen cydsyniad - nid yw'r gwelliannau arfaethedig yn effeithio ar y cyngor cymhwysedd a nodir uchod ar gyfer y cymal gwreiddiol, a chan fod y cymal gwreiddiol yn 'ddarpariaeth berthnasol' ac o fewn cwmpas RhS 29, mae angen cydsyniad ar gyfer y gwelliannau hyn.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

45. Mae barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad yn parhau i fod yr un fath â'r farn a amlinellwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf a gyflwynwyd ar 25 Mai 2022.

**Safbwynt Polisi Presennol Llywodraeth Cymru**

46. Nid oedd y Bil fel y'i cyflwynwyd yn wreiddiol yn darparu unrhyw rôl i'r Senedd na Llywodraeth Cymru o ran llywodraethiant y Banc, ac roedd yn cadw gweithgareddau penodol ar gyfer Senedd y DU, y Canghellor a Thrysorlys Ei Fawrhydi.

47. Mae cymal 2 yn caniatáu i'r Trysorlys ddiwygio gweithgareddau'r Banc a'r diffiniad o seilwaith. Drwy Welliant y Llywodraeth 3 mae rhwymedigaeth statudol ar y Trysorlys i ymgynghori â Gweinidogion Cymru wrth arfer y pwerau hyn.

48. Yn yr un modd, mae cymal 3 yn caniatáu i'r Trysorlys ddiwygio neu ddisodli'r datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer y Banc. Drwy Welliant y Llywodraeth 4 mae rhwymedigaeth statudol ar y Trysorlys i ymgynghori â Gweinidogion Cymru wrth arfer y pwerau hyn.

49. Mae Gwelliant y Llywodraeth 5 yn nodi bod rhaid i'r Bwrdd benodi un neu ragor o Gyfarwyddwyr i ystyried buddiannau'r awdurdodau cenedlaethol. Bydd hyn yn darparu dyletswydd statudol i gysylltu ag o leiaf un o Gyfarwyddwyr y Bwrdd a Gweinidogion Cymru, gan helpu i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hystyried ar y Bwrdd.

50. Mae'r tri gwelliant a amlinellir uchod yn darparu rôl statudol i Weinidogion Cymru neu'n rhoi ystyriaeth i fuddiannau Cymru yn y tri phrif faes lle mae gan Lywodraeth y DU bwerau penodol. Er nad yw'r canlyniad yn gwireddu fy holl amcanion, credaf fod gwelliannau Llywodraeth y DU yn gyfaddawd rhesymol a fydd yn galluogi i fuddiannau Cymru a Llywodraeth Cymru gael eu hadlewyrchu drwy waith y Banc.

**Goblygiadau Ariannol**

51. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn deillio o'r memorandwm hwn.

**Casgliad**

52. Fel y nodir uchod, mae angen cydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru ar gyfer pob gwelliant i'r Bil.

53. Gwnaed gwelliannau i'r Bil er mwyn adlewyrchu buddiannau Cymru a Llywodraeth Cymru yn well ac i barchu'r setliad datganoli yn well. Rwyf felly yn awr yn argymell bod cydsyniad yn cael ei roi i'r Bil. Maes o law, bwriadaf felly argymell bod y Senedd yn cydsynio i basio'r Bil hwn.

**Rebecca Evans AS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**30 Tachwedd 2022**